WG35.5.137
W. 4.

# MARWNAD

I

# MRS. ANNE MORSE,

ABERTIGEN,

**Gwraig Mr. W. MORSE, plwyf Eglwysfair-a-Churig, swydd Gaerfyrddin, yr hon a fu farw Rhagfyr 1af, 1900, wedi bod 40 mlynedd yn analluog i godi ei llaw at ei genau, gan y gewynwst. Aeth i wlad well.**

---

GANWYD dyn i boen a blinder,
Dyna ei ddaearol ran—
Fel yr 'heda y wreichionen
Wrth ei helfen tua'r làn;
Mynych brofir gan gystuddiau
Trymion, meithion, yn y byd—
Rhagredegwyr diamheuol
Angeu ydyw'r rhai'n i gyd.

Meistres MORSE, o Abertigen,
Un ragorai yn mhob rhin,
Gafodd brofiad hir a chwerw
O arteithiau'r dolur blin;
Pan yn anterth blodau bywyd,
Hi wanychodd ar ei thaith;
Llwyr ddifreiniwyd hi o'i hoender
Gan ei dyoddefaint maith.

Y gewynwst blin, dirdynol,
Berodd iddi siom a nam,
Nes am ddeugain mlynedd meithion
Rhwystrwyd hi i gerdded cam;
Deg-ar-hugain o flynyddoedd
Braidd symudodd law a throed—
Bu yn ngwaelod dyffryn adfyd
Fwy na haner dyddiau'i hoed.

Gwelai ereill mewn llawn iechyd,
Ac yn rhodio'r ddaear dlos,

X2053123 99

Tra bob dydd gwnai hi ddihoeni,
  Ac yn methu cysgu'r nos;
Ereill a fwytaent eu hymborth
  Wrth y bwrdd bob pryd yn iach;
Hi gan arall gela'i phorthi,
  Fel pe byddai'n faban bach.

Pe gallasai aur ac arian
  Wneuthur rhywbeth er ei hoen—
Pe gallasai gwaith meddygon
  Ei hadferu hi o'i phoen—
Cawsai y cyffeiriau goreu
  Fedrai cyfoeth iddi ddwyn;
Ni omeddid iddi unpeth
  I liniaru'r aethus gŵyn.

Hi oedd iach yn moreu bywyd,
  Fel blodeuyn prydferth haf;
Harddwch wenai ar ei gruddiau
  Yn ei chartref uwch y Taf;
Gwnai ei phresenoldeb hawddgar
  Llwynyrhwrdd yn fan o swyn,
Nes ei myn'd i Abertigen*
  Gyda'i phriod tawel, mwyn.

Cafodd briod o'r llarieiddiaf—
  Gwr yn llawn tynerwch pur—
Wnelai bobpeth a dueddai
  Laesu'r poen a lleddfu'r cur;
Arni beunydd y gweinyddai
  Gyda llawn tynerwch serch—
Ddydd a nos gwnai gydymdeimlo,
  Megys teimla mam at ferch.

Ar y Suliau elai'r teulu
  I'r oedfaon i Glandwr,
Lle yr oedd ei chalon hithau—
  Hoffai fyned gyda'i gwr;
Ond arosai'n ddiymadferth
  Yn ei chadair wrth y tân,
Gan addoli mewn myfyrdod
  Ar yr aelwyd gynes, lan.

Gwnaethai'n ffyddlon gynt ddefnyddio
  Rhagorfreintiau'r Ysgol Sul,
Ac yn moreu oes ymroddodd
  Ddysgu rhodio'r llwybyr cul;

---

* Daeth yno yn wraig, Tachwedd 30ain, 1854, sef 46 mlynedd cyn ei marw.

Casglu wnaeth wybodaeth ddwyfol
  O'r Ysgrythyr gyda sêl,
Fel y gwna'r wenynen ddiwyd
  Dymhor heulog gasglu'r mêl.

Yn iach dymhor ei hieuenctid
  Gwnai ymgyrchu i Lwyn'rhwrdd,
Gyda'r teulu'n fawr ei hawydd
  Am flasusfwyd gras mewn cwrdd;
Gyda'r lleill o'r gynulleidfa
  Gwnai ymuno yn y mawl;
Llonai'i hysbryd pan yn gwrando
  Gwirioneddau gwlad y gwawl.

Ceisiodd Iesu iddi'n Geidwad,
  Mynodd grefydd boreu oes;
Hyn a'i gwnaeth yn amyneddgar,
  Ac yn dawel dan ei chroes.
Gras yr Iesu gawsai'n drysor—
  Y cynysgaeth mwya'i werth;
Hyn fu beunydd iddi'n gysur,
  Ac mewn cystudd blin yn nerth.

Cymdeithasu â duwiolion
  Oedd bob amser iddi'n wledd;
Addewidion y gwirionedd
  Roddent iddi ddirfawr hedd.
Dan yr oruchwyliaeth chwerw
  Yn addfetach do'i o hyd,
Nes hiraethai am ymddatod
  O gylymau'r llawr i gyd.

Cael ei chànu yn yr olchfa
  Fu am ddeugain mlynedd llawn;
Dyfod wnai yn wynach, wynach,
  Dan driniaethau'r Meddyg Mawr,
Mwyach nid oedd dim i'w denu
  I awyddu'n hwy i fyw,
A dymunai fyned adref
  I breswylio gyda Duw.

Megys llong fu mewn tymhestloedd,
  Gurwyd gan chwyrn dònau'r aig,
Nes rhwygedig iawn ei hwyliau,
  Ac yn friw gan lawer craig;
Gwnaeth o'r diwedd daflu angor
  Yn y porthladd, tawel fan;
Wedi mordaith arw, enbyd,
  Mae hi wedi cyrhaedd glàn.

Deugain mlynedd oedd y tymhor
  Profodd Duw blant Israel gynt,
Mewn anialwch gwâg ac erchyll,
  Ar eu gwaredigol hynt.
Deugain mlynedd profwyd hithau
  Yn niffaethwch cystudd trwm;
Ar y manna bu'n ymborthi
  Tra ar daith trwy'r anial llwm.

Jones, Llwyn'rhwrdd, ei thad, wr ffyddlon,
  Gyrhaeddasai yno o'i blaen;
Morgan Jones,* Trelech, wr duwiol,
  Ro'dd Efengyl Crist ar daen;
Evan Jones,† ei hewythr hawddgar,
  Mary‡ fwyn, ei chwaer, a llu
O'i pherth'nasau, gwrddodd yno,
  Yn molianu'r Iesu cu.

Mae'r cystuddiau brofir yma
  Gan dduwiolion ar y llawr
Yn gweithredu pwys gogoniant
  Bythol yn y nefoedd fawr.
Os 'nol mesur cystudd yma
  Bydd y cysur yn y nef,
Uwch yw ANNE na llu mewn gwynfyd,
  Ac yn nesach ato Ef.

Uchel yw ei diolchgarwch
  Am y gras a'i daliodd cy'd,
Yn nghaethiwed dyoddefaint
  Ddeugain mlynedd yn y byd;
Byr ac ysgafn gwêl ei chystudd—
  Ymddangosai yma'n hir—
Ond anghofir yn nedwyddwch
  Pur a pherffaith nefol dir.

Gwâg o'r addfwyn ddyoddefgar
  Ydyw Abertigen 'nawr;
Un yn rhagor yn y nefoedd—
  Chwydda rif y dyrfa fawr.
Mae ei bywyd yn llefaru
  Heddyw'n eglur wrth y byw,
Nad oes dim fel crefydd foreu,
  Ac ymroi gwas'naethu Duw.

* Y Parch. Morgan Jones oedd ei thad-cu. Bu farw Rhagfyr 23ain, 1835, yn 67 mlwydd oed.

† Y Parch. Evan Jones, Ruscombe. Bu farw Mehefin 16eg, 1855, yn 54 mlwydd oed.

‡ Mary, gwraig gyntaf y Parch. D. Williams, D.D., Capel Noni, pan oedd yn Glyn-nedd.

**March, Cambs.** J. Ll. JAMES (Clwydwenfro).

*Argraffwyd gan Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.*